

# Sancteiddrwydd

## Darllen: Genesis 28:16

Bu profiad yr adnod hon yn drobwynt ym mywyd Jacob. Arhosodd yr atgof gydag ef weddill ei fywyd – roedd wedi teimlo presenoldeb Duw. Yr un oedd profiad Moses pan welodd y berth yn lloggi. A chafodd y bachgen Samuel brofiad tebyg yn y deml yn Seilo. Nid ar ffordd Damascus yn unig y profodd Paul agosatrwydd ysbrydol, ond mewn carchar yn Nhroas ac ar fwrdd llong. Profodd Iesu hefyd y wefr ysbrydol a theimlodd agosatrwydd Duw yn ystod ei fedydd, ar fynydd y Gweddnewidiad, yng Ngethsemane ac ar Galfaria. I bob un o'r cymeriadau hyn, roedd y profiad nid yn unig yn uchafbwynt ond hefyd yn drobwynt.

Wrth gerdded trwy adfeilion hen eglwys yng nghyffiniau Assisi y teimlodd Ffransis bresenoldeb Duw. Ac mewn ysgoldy digon di-nod y teimlodd John Wesley ei galon yn cynhesu. Wrth ddarllen cylchgrawn cenhadol yn ei lety ar gyrion Paris y profodd Albert Schweitzer bresenoldeb Duw. Ac fel aelod o gang oedd yn barod i ddwyn arian y casgliad mewn eglwys yn Efrog Newydd y profodd Nicky Cruz bresenoldeb ei Arglwydd. Profiad pob un o'r bobl hyn oedd, 'Y mae'n sicr fod yr Arglwydd yn y lle hwn, ac ni wyddwn i' (Genesis 28:16).

Beth sy'n gyffredin ym mhrofiadau'r bobl hyn? Yn y Beibl, caiff yr ymdeimlad o bresenoldeb Duw ei gysylltu â distawrwydd. Ar eu pennau eu hunain yr oedd Jacob, Moses a Samuel. Cerdded ar ei ben ei hun oedd Sant Ffransis, ac ar ei ben ei hun yn ei lety yr oedd Schweitzer. Yn nhawelwch yr oedfa wrth benlinio o flaen y gweinidog y teimlodd Nicky Cruz bresenoldeb Duw. I'r mynydd a'r manau anghysbell y byddai Iesu'n mynd i ddal cymundeb â'i Dad. Byd llawn sŵn ydi'n byd ni. Ar yr awyren, y trê neu'r bws mae yna synau o'n cwmpas, ac mae'r ffonau symudol yn bla ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fel y dywedodd un diwinydd, 'Pan mae Duw yn ceisio dod i mewn i fywyd dyn does yna ddim lle distaw iddo lanio.'

Beth arall sy'n ein rhwystro rhag teimlo presenoldeb Duw? Meddai Iesu yn y Bregeth ar y Mynydd, 'Gwyn eu byd y rhai pur o galon, oherwydd cânt hwy weld Duw' (Mathew 5:8). Yng ngoleuni hyn, pwy sy'n gadwedig? Mae'r meddyliau drwg, yr iaith anwedus a chwyrn, a'r meddwl materol yn rhan o'n gwedd ni ac yn cael eu porthi gan ein hamgylchfyd a'n cymdeithas. Mae'r elfennau hyn yn norm i lawer o bobl, ac mewn hinsawdd fel hyn mor anodd ydi tawelu a theimlo presenoldeb a thangnefedd Duw. Ond yn ogystal â'r elfennau hyn mae'n hymarweddiad yn ein pellhau oddi wrth Dduw. Rydym byth a hefyd yn cystadlu, yn ymosod, yn rhannu, yn filain, yn grafog a brathog, ac mae'r nodweddion hyn yn amlygu eu hunain yn y cylchoedd crefyddol hefyd.

Ond cyn mynd ati i feio dylanwadau'n hoes a'n cyfnod – agweddau seciwlar, diffyg cred, crefydd ar drai, eglwysi'n wag – edrychwn arnon ni ein hunain. Beth ydi'r amodau sy'n help i ni deimlo presenoldeb Duw? Maen nhw'r un amodau ag oedden nhw yng nghyfnod Jacob: ysbryd ac awyrgylch dawel, meddwl pur a thymer hynaws ac addfwyn. Pan roir lle i'r pethau hyn, bryd hynny yr amlygir presenoldeb a sancteiddrwydd Duw.

### **Myfyrdod pellach:**

Ydych chi wedi cael profiad o bresenoldeb Duw? Rhannwch eich profiad.

Ystyriwch yn ofalus y nodweddion a amlinellir yn y myfyrdod hwn.